


Chwaraeon RhCT

# Ffion

## Ysgol Gymuned y Porth

Mae Ffion yn rhan o grŵp ardderchog o Lysgenhadon Ifainc yn Ysgol Gymuned y Porth. Eleni, mae'r grŵp wedi cyflwyno cais i'n panel Dragon's Den, cynnal prosiect osgoi'r bêl arbennig, cefnogi cynadleddau'r Llysgenhadon Ifainc a diwrnodau dathlu, ac wedi helpu i ddarparu gwyliau mewn ysgolion cynradd. Yn fwyaf diweddar, mae Ffion wedi cefnogi'r achlysur Ras Hwyl Siôn Corn. Mae Ffion wedi cofnodi 31 awr o wirfoddoli'r mis yma.

"Mae fy rôl fel llysgennad wedi bod yn hynod werthfawr. Rydw i wedi datblygu sgiliau arwain amhrisiadwy, gan drefnu clybiau chwaraeon ac achlysuron, tra'n cymell pobl ifainc a manteisio i'r eithaf ar fy mrwdfrydedd tuag at chwaraeon er mwyn eu hannog i gadw'n heini. Yn ogystal, rydw i wedi ennill dealltwriaeth well o bwysigrwydd cynnwys y gymuned yn rhan o bethau a'r dylanwad positif mae modd i ni ei gael ar eraill. Mae'r profiad yma hefyd wedi fy helpu i wella fy sgiliau siarad cyhoeddus."

**LLYSGENNAD IFANC Y MIS - RHAGFYR 2024**

Chwaraeon RhCT Sport RCT | sportwales chwaraeoncymru | YOUTH SPORT TRUST | RHONDDA CYNON TAF